# Cenn@d

MEHEFIN 4 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 223

## Eisteddfod y Dur a'r Môr ar Barc Margam






Wrth deithio ar hyd yr M4 yn ardal Port Talbot, mae'n debyg mai'r gweithfeydd dur yno sy'n denu'r sylw, gyda'r môr yn y pellter. Yn anffodus mae'r gweithfeydd hynny erbyn hyn yn segur, gyda phryder am ddyfodol swyddi yn y fro. Ond o edrych i'r cyfeiriad arall, ceir parc gwledig hyfryd, sef Parc Gwledig Margam, gyda thiroedd a choedwigoedd yn llawn ceirw, defaid a gwartheg, heb sôn am ambell alpaca. O fewn y tir ceir castell gothig yr olwg, gydag orendy ac abaty - un wedi dymchwel ac un arall mewn cyflwr arbennig iawn ac mewn defnydd cyson. Yr abaty hwn bu'n gartref i wasanaeth blynyddol yr Urdd ar gychwyn yr Eisteddfod eleni. Bu'n braf cael ymuno gyda'r gynulleidfa luosog, a chael hyd i'r 2 gadair wag olaf yno, er mwyn cael addoli gyda chynulleidfa o blant ac ieuenctid o dan arweiniad y Parchg Rhys Locke. Cafwyd nifer o eitemau gan blant Ysgolion Sul y fro, a datganiad cofiadwy o gerdd 'Y Tangnefeddwyr' yn cael ei chanu gan griw o bobl ifanc. Rhys oedd yn cyflwyno'r neges, gan ein hatgoffa o arwyddair gwreiddiol yr Urdd, sef bod yn ffyddlon a gwasanaethu Cymru, Cyd-ddyn a Christ. Braf oedd gweld yr abaty o dan ei sang, gyda chynulleidfa o bob oed wedi dod ynghyd i addoli a nodi cychwyn ar weithgaredd yr wythnos.

Ar faes yr Urdd roedd Cytûn a Chyngor Ysgolion Sul yno efo'r babell arferol, a braf iawn oedd medru cydweithio efo criw o wirfoddolwyr ymroddedig gydol yr wythnos. Mae ein diolch yn arbennig i Mr Gareth Richards o Gyfundeb Gorllewin Morgannwg am ei holl waith yn cywain pob dim at ei gilydd, gan drefnu byrddau a chadeiriau a tua 40 o wirfoddolwyr i'n helpu ar y stondin. Bob dydd roedd y rhain yn cyrraedd efo'i doniau arbennig - creu calonnau gweddi, paentio wyneb, her taflu pêl, creu breichledau caredigrwydd, paentio ewinedd, taflenni crefft a lliwio a llawer gweithgaredd arall.

(parhad ar y dudalen nesaf)

Llongyfarch aelodau newydd i'r Orsedd
Tudalen 5

Cofio'r Parchedig Eifion Wyn Williams
Tudalen 7

Oedfa Cenn@d
Gwasanaeth ar gyfer Sul y Pentecost
Tudalen 8

## *Eisteddfod y Dur a'r Môr ar Barc Margam*

*(parhad o dudalen 1)*

Cafwyd cwis amgylcheddol gan Delyth Higgins o ARocha a braf hefyd oedd cael cwmni Siân Wyn Rees o Gymdeithas y Beibl. Bu cyfle i arddangos bywiogrwydd yr eglwysi lleol mewn cyfres o 8 panel yn dangos gweithgaredd o fewn yr eglwysi hynny, gyda nifer o blant yn troi mewn i ddangos eu lluniau i rieni a ffrindiau. Roedd digon o fferins ar gael i'r plant, a chyfle i wneud ambell baned a theisen gri i'r selogion. Un o uchafbwyntiau'r wythnos oedd cael lansio cân newydd yng nghwmni Martyn Geraint a disgyblion rhai o'r ysgolion lleol. Diolch i griw Cymorth Cristnogol am drefnu hyn ar ein stondin. Mae'r gân ar gael i'w lawr lwytho o dudalen Facebook Cymorth Cristnogol.

Cafwyd Eisteddfod hynod lwyddiannus, er gwaetha'r tywydd, a diolch am gyfle i dystio a rhannu'r Newyddion Da am Iesu ar y maes, gan rannu copïau o Efengyl Ioan beibl.net i lawer. Ymhen y flwyddyn byddwn eto ar faes y Sioe ym Môn ac yn disgwyl ymlaen am gyfle i gydweithio gyda phobl yno.

*Aled Davies*




# Penwythnos Esgyn, menter ieuenctid Undeb Bedyddwyr Cymru, 21–3 Tachwedd

'Esgyn' yw menter ieuenctid newydd Undeb Bedyddwyr Cymru, ac mae wedi'i bwriadu ar gyfer pobl ifanc yn ein heglwysi a'n cymunedau. Bwriad a chalon Esgyn yw creu cyfle i bobl ifanc ddod at ei gilydd ac adeiladu perthynas â'i gilydd, yn ogystal â darganfod mwy am antur adnabod Duw.

Rydym ni'n falch o allu rhannu ein bod yn dychwelyd yr hydref hwn ar gyfer trydydd penwythnos, a fydd yn cael ei gynnal ar **21–3 Tachwedd**. Bydd y penwythnos yn dechrau ar y nos Wener ac yn gorffen bnawn Sul, a bydd cyfle i'r bobl ifanc wneud y canlynol:

- 😊 mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael yng nghanolfan Summit Rock UK, e.e. saethyddiaeth, ogofa, rhaffau uchel a dringo …
- 😊 mwynhau adegau o orffwys, cymdeithasu, a bwyd da!
- 😊 cymryd rhan mewn gweithgareddau tîm a gemau eraill
- 😊 cael amser i addoli, gwrando ar gerddoriaeth, dysgu, a mwy …




Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: Esgyn – The Baptist Union of Wales
Gellir archebu lle gan ddefnyddio'r **ffurflen** hon: Cofrestru Esgyn Tachwedd 2025